

Annwyl Cyfarwyddwr

Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Dinas Abertawe yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan arolygiad AGC o'r canlynol:

- Gwasanaethau Plant Cyngor Abertawe yn ystod mis Gorffennaf 2018
- Arolygiad ar y Cyd o Wasanaeth Troseddwr Ifanc Bae'r Gorllewin ym mis Rhagfyr 2018
- Arolygiad ar y cyd o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol gan AGIC ac AGC

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A hefyd, gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn:

- Hunanwerthusiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â gwaith thematig yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn (65+ oed).
- Gweithgaredd â ffocws ym meysydd gwasanaeth diogelu oedolion a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 1 Mai 2019.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid penodol wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2018 ac mae wedi prosesu ôl-groniad o geisiadau. Mae awdurdodiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid bellach yn cael eu prosesu'n amserol yn gyson ac o dan y cyfartaledd 11 wythnos cenedlaethol. Mae goruchwyliaeth dda gan y rheolwyr sy'n sicrhau cysondeb ac ansawdd y gwaith. Clywsom gan aelodau o'r staff am y buddion o gael tîm trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid dynodedig lle gallent "hone and develop their skills and knowledge." Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn mwynhau eu gwaith, ond roedd y model newydd yn wynebu rhai heriau am fod staff o fewn y tîm yn cylchdroi bob chwe wythnos.

Gwelsom fod y staff yn ymateb i atgyfeiriadau diogelu yn amserol a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd i ddiogelu oedolion mewn perygl. Mae'r broses ddiogelu wedi'i throsglwyddo i'r timau ac mae'n peri rhai heriau i'r awdurdod lleol, gan gynnwys sicrhau cysondeb penderfyniadau am drothwyon ac ansawdd y gwaith. Byddwn yn adolygu cynlluniau'r awdurdod lleol i wella canlyniadau i oedolion mewn perygl gan sicrhau bod canlyniadau personol yn gysylltiedig â diogelu.

Dywedodd y rheolwyr arweiniol dynodedig wrthym nad oedd prosesau cymorth ffurfiol ar waith ond eu bod yn cefnogi ei gilydd yn anffurfiol ac yn teimlo y byddai system mentora yn fuddiol er mwyn darparu cymorth. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod polisïau clir ar waith i gefnogi ymarferwyr i ymgymryd â'u rolau. Clywsom am heriau galwadau'r gwaith gan yr aelodau o'r staff ac roeddent o'r farn y byddai tîm diogelu dynodedig yn fwy effeithiol. Clywsom fod hwn yn faes sy'n cael ei ystyried gan uwch-reolwyr ar hyn o bryd.

Roedd dull gweithredu Cyngor Dinas Abertawe o ran Arwyddion Diogelwch (SOS) yn y gwasanaethau plant, a oedd yn sail i asesiadau yn ogystal â chynlluniau diogelu a gofal, yn darparu fframwaith manwl yr oedd y staff yn ei ddeall yn dda, ac a oedd yn blaenoriaethu risg yn glir. Defnyddiwyd prosesau asesu a chynllunio gofal cadarn fel sail ar gyfer nodi angen, a chynlluniwyd a chyflawnwyd y cymorth angenrheidiol i sicrhau deilliannau unigol cytûn. Nid oedd y sgwrs ynghylch yr hyn sy'n bwysig na llais y plentyn bob amser yn amlwg mewn cofnodion asesu a chynllunio; roedd angen gwneud gwelliannau hefyd o ran cofnodi cryfderau a deilliannau personol.

- Pobl – llais a rheolaeth

Gwnaethom asesu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd yr awdurdod lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen fel rhan o'r arolygiad a'r gweithgareddau gwerthuso perfformiad blynyddol a gwelwyd bod yr angen i fodloni gofynion cynnig rhagweithiol y Gymraeg yn cael ei gydnabod. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cefnogi pobl o ystod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, a gall alw ar gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i helpu gyda hyn.

Mae gan wasanaethau plant Cyngor Abertawe weithlu cymharol sefydlog a chadarn sy'n ymrwymedig i ganolbwyntio ar y plentyn, ac sy'n frwd dros gadw teuluoedd gyda'i gilydd a sicrhau deilliannau da i blant. Dywedodd staff wrthym yn gyson eu bod yn mwynhau gweithio i'r awdurdod lleol, lle'r oedd diwylliant o gymorth yr oeddent yn ei werthfawrogi, hyd yn oed pan oedd y galw'n uchel, roedd y bobl yn hapus yn eu rolau. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod morâl y staff yn isel ymhlith y gwasanaeth troseddwr ifanc ac yn faes y dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio arno pan fydd yn rhan o newidiadau sefydliadol.

Roedd y plant a'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau a oedd yn cael eu meithrin â gweithwyr cymdeithasol unigol.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Mae'r awdurdod lleol wedi ail-lunio ei wasanaethau er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cynnydd wedi bod yn y galw am wasanaethau plant dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r angen i weithio'n fwy effeithiol gydag asiantaethau partner er mwyn ymateb yn gadarnhaol i blant a'u teuluoedd wedi cael ei gydnabod a gweithredwyd ar hyn. Mae lansio'r canllaw Pathway to Provision amlasiantaethol wedi gwella eglurder ynghylch trothwyon a llwybrau ar gyfer asiantaethau partner.

Fel rhan o agenda Tlodi a'i Atal ehangach yr awdurdod lleol, mae gwasanaeth y Tîm o Amgylch y Teulu wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ysgolion ledled Abertawe, ac mae'n gweithio'n dda ym marn asiantaethau partner. Mae'r cynlluniau y clywsom amdanynt i ddatblygu dull 'Arwyddion Llesiant' ar y pwynt cyswllt cyntaf ymhellach yn debygol o atgyfnerthu gwasanaethau ymyrryd ac atal cynnar yr awdurdod lleol. Bydd hwn yn faes i'w ystyried ar gyfer ein gweithgarwch â ffocws yn 2019/20.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i

blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Yn ystod ein harolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, nodwyd cryfderau a gwnaed argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae angen dull gweithredu integredig ar yr awdurdod lleol a'i bartneriaid er mwyn gweithredu'r argymhellion. Nodwyd yn yr arolygiad fod cydymffurfiaeth dda â'r Mesur Iechyd Meddwl ynghylch hawliau defnyddwyr gwasanaeth i gael eu hailasesu gan y tîm iechyd meddwl cymunedol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau gan y tîm os ydynt yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Roedd cydberthnasau gwaith effeithiol rhwng y tîm iechyd meddwl cymunedol a'r tîm plant a theuluoedd. Yn ein harolygiad o'r gwasanaethau plant, nodwyd rhai meysydd lle'r oedd gweithio mewn partneriaeth yn dda, gyda'r angen i wella gweithio mewn partneriaeth rhwng yr adran addysg a'r gwasanaethau plant. Byddwn yn ailedrych ar hyn gyda'r awdurdod lleol fel rhan o'r gweithgaredd â ffocws.

Gwelsom arfer o ansawdd da yng ngwasanaethau plant Cyngor Abertawe, gyda chanlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni ar gyfer llawer o blant a phobl ifanc. Roedd yr hwb perfformio wedi eu galluogi i gryfhau trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwyllo gan y rheolwyr.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i gynyddu cyfran y plant a'r bobl ifanc a roddir mewn lleoliadau gofalmwr maeth yn fewnol yn hytrach na chael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod lleol. Gwelsom fod ymdrechion yn cael eu gwneud yn gyson i gadw plant gyda'u teuluoedd, os oedd er eu budd gorau i wneud hynny.

Parhaodd y dewis o ran lleoliadau i greu heriau parhaus, yn enwedig i blant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth. Mae achlysuron wedi bod lle mae plant wedi cael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio am gyfnodau byr oherwydd yr heriau hyn ac mae'n faes a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol fel un i'w wella. Cafwyd rhai heriau i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant ag anghenion cymhleth ac i weithio mewn partneriaeth gyda byrddau iechyd. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol yn y ffordd y mae'n nodi meysydd i'w datblygu ac mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu i gefnogi gwelliant.

Yn yr arolygiad o'r gwasanaeth troseddwr ifanc, gwelwyd nad oedd trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y gwasanaeth yn effeithiol iawn. Canfu'r arolygiad bryderon mewn perthynas â rheoli risgiau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn ac mae'n datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaeth troseddwr ifanc yn Abertawe er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a gwella goruchwyliaeth.

Nodwyd yr angen i gryfhau trefniadau goruchwyllo mewn tri arolygiad ar wahân: yr arolygiad o'r Gwasanaethau Plant, yr arolygiad o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r arolygiad o'r Gwasanaeth Troseddwr Ifanc. Bydd angen i uwch-arweinwyr adolygu'r maes hwn er mwyn sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gefnogi staff yn y gweithle.

Mae uwch dîm arwain sefydlog, cyson a phrofiadol wedi bod yn y gwasanaethau plant sydd wedi arwain yr adran yn hyderus. Mae'r gweithlu yn peri her i'r awdurdod lleol ac mae angen canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y dyfodol yn y sefydliad a chynnal sefydlogrwydd.

Cafwyd cyfnod ansefydlog yn y gwasanaethau oedolion oherwydd gwaith i ail-lunio gwasanaethau/strwythurau gweithredol yn ogystal â newidiadau personél. Mae angen canolbwyntio ar gryfhau prosesau goruchwylio gan y rheolwyr yn y gwasanaeth hwn er mwyn gallu cyflwyno agenda drawsnewid yr awdurdod lleol yn effeithiol a sicrhau bod y gweithlu yn cael ei gefnogi drwy'r cyfnod o newid. Mae angen sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng rheoli risgiau beunyddiol ac ail-lunio gwasanaethau er mwyn ysgogi gwelliannau.

Mae Cyngor Abertawe yn sefydliad dysgu ac mae'n gwbl ymwybodol o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella ac mae'n rhagweithiol wrth wneud gwelliannau a sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae hyn yn her sylweddol barhaus oherwydd problemau cyllidebol a materion gyda'r gweithlu.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys adolygu rhai meysydd i'w gwella yn dilyn arolygiadau, canlyniadau dysgu i blant gyda ffocws ar weithio mewn

partneriaeth a'r gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf. Yn y gwasanaethau oedolion, byddwn yn canolbwyntio ar adolygu canlyniadau personol oedolion sydd mewn perygl.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn